COFNOD O BENDERFYNIADAU CYFARFOD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU DYDDIEDIG DYDD IAU, 5 IONAWR 2023 AM 10.00 A.M.

Yn bresennol:

**Y Cynghorwyr:**

RM Granville (Cadeirydd), J Pratt, H Bennett, D Harrison, R Williams, M Williams, H Griffiths, M John, M Hughes, W Kendall, D Hughes, N Clarke, R Collins, C Davies, M Kearn.

**Arsyllwr:**

S Easterbrook

**Swyddogion:**

R Jones, MA Galvin, P Thomas, J Parsons, R Davies, C Flower, R Morgan, J Jenkins, M Pitman, L Tuck, C Hamm, M Lucas

38. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Y Cynghorwyr A Berrow ac S Griffiths

39. Datganiadau o Fuddiannau

Y Cynghorydd D Hughes – buddiant oedd yn rhagfarnu yn eitem 7 ar yr Agenda am fod gwrthwynebydd i'r cais yn perthyn iddi a'i bod hefyd yn adnabod teulu gwrthwynebydd arall yn dda, yn ogystal â bod wedi cael ei chyflogi o'r blaen gan dad y gwrthwynebydd hwn.

Y Cynghorydd H Bennett – buddiant oedd yn rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda am ei bod yn adnabod teulu'r ymgeisydd.

Gadawodd y ddwy aelod y cyfarfod tra roedd yr eitemau hyn yn cael eu hystyried.

40. Archwiliadau Safle

Cytuno ar 8 Chwefror 2023 fel dyddiad ar gyfer unrhyw archwiliadau safle a nodwyd cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor gan y Cadeirydd.

41. Siaradwyr Cyhoeddus

P/22/85/RLX – Y Cynghorydd D Unwin (Cynghorydd Tref Pen-y-bont ar Ogwr)

P/22/85/RLX – Mr A Nelson a S Kelly (dau wrthwynebydd)

P/22/85/RLX – Mr R Chichester (Asiant yr ymgeisydd)

42. Taflen Ddiwygiadau

Derbyniwyd y Daflen Ddiwygiadau gan y Cadeirydd fel eitem frys dan Ran 4, paragraff 4 o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor.

43. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu

Nodwyd yr adroddiad yn amlinellu eitem Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu.

44. P/22/85/RLX - Coed Parc, Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4BA – Dileu Amod 19 (Datganiad y Dull Adeiladu) P/19/174/RLX drwy ddarparu manylion.

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais, yn amodol ar yr Amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

Yn amodol ar gynnwys yr Amodau ychwanegol canlynol:-

21. Er gwaethaf Datganiad y Dull Adeiladu a gyflwynwyd ac a gytunwyd, ni chaiff datblygu pellach ar Gam 3 y datblygiad gychwyn hyd nes y bydd lloches i gerddwyr, 1 metr o led wedi ei ffensio'n llawn, wedi cael ei darparu ar ymyl ddwyreiniol y dramwyfa fynediad bresennol. Bydd y lloches i gerddwyr yn cysylltu anheddau plotiau 2, 3 a 4 â'r llwybr troed sydd yno eisoes. Rhaid creu'r lloches i gerddwyr cyn unrhyw ddatblygu pellach ar Gam 3 a rhaid ei chadw er mwyn diogelwch cerddwyr drwy gydol y cyfnod adeiladu.

Rheswm: er mwyn diogelwch y briffordd a cherddwyr.
22. O fewn dau fis i ddyddiad y caniatâd hwn, rhaid cwblhau'r darn anghyflawn o'r llwybr troed i gerddwyr sydd wedi ei leoli ar ochr ddwyreiniol mynediad ceg y gloch i'r safle sy'n wynebu Stryd y Parc, a'i gadw mewn deunyddiau parhaol er mwyn sicrhau llwybr parhaus i gerddwyr i Stryd y Parc ar gyfer preswylwyr presennol y safle.
Rheswm: er mwyn diogelwch y briffordd a cherddwyr.

45. P/20/895/RLX - Ward Jones Pen-y-bont ar Ogwr Cyf, Heol Horsefair, Ystâd Ddiwydiannol Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3YN – Amrywio Amodau 1, 2, 3, a 4 a dileu Amodau 8 ac 16 P/17/369/RLX i ganiatáu newidiadau rhannol i ddefnydd y safle.

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cais, yn ddarostyngedig i'r Amodau oedd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

46. Apeliadau

(1) Nodi'r apeliadau a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y dangosir yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.
(2) Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i ganiatáu'r Apêl, yn ddarostyngedig i'r amodau oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad:-
(i) Rhif yr Apêl. – A/20/3253547 (1895)
Testun yr Apêl – Un Garafán Sipsiwn Breswyl Sefydlog ynghyd â chodi Ystafell ddydd/cyfleustodau, un Garafán Deithiol, Bloc Stablau Newydd, Man Parcio Ceir a Gosod Tanc Septig, Tir yn yr Ysgubor, Lôn y Tyddynnod, Coety, Pen-y-bont ar Ogwr.

Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i gadarnhau'r Hysbysiad Gorfodi a'i ddiwygio:-

(ii) Rhif yr Apêl. – C/21/3278601 (1933)

Testun yr Apêl – Torri Coed, sydd dan Orchymyn Diogelu Coed, heb awdurdod, 10 Lys Briallen, Bracla, Pen-y-Bont Ar Ogwr.
Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i wrthod yr Apêl:-

(iii) Rhif yr Apêl - A/21/3275105 (1946)

Testun yr Apêl - Codi Wal Gynnal a Grisiau, Patio wedi'i Godi, Ystafell yr Ardd a Thyrbin Gwynt i'r ardd gefn, 10 Llys Briallen, Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr.

Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i wrthod yr Apêl:-

(iv) Rhif yr Apêl - A/21/3283050 (1934)

Testun yr Apêl - Newid defnydd y llawr gwaelod i Lety Preswyl i'w ddefnyddio gyda'r Llety Preswyl ar y Llawr Cyntaf (Un Uned Breswyl) yn Nhafarn y White Hart, Heol Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg.

Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i gadarnhau'r Hysbysiad Gorfodi:-

(v) Rhif yr Apêl - CAS-01665-W4K9P2 (1944)

Testun yr Apêl – Honiad bod Cynwysyddion wedi eu Lleoli heb awdurdod a Sbwriel wedi ei Adael ar Safle 7777 blaenorol, Llangynwyd, Maesteg.
Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i wrthod yr Apêl:-

(vi) Rhif yr Apêl - CAS-01665-W4K9P2 (1945)

Testun yr Apêl - Cadw 2 Gynhwysydd Storio ar dir i'r de o Bont Rhyd-y-Cyff, Maesteg.
Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd bod yr Apêl i gael ei chaniatáu yn rhannol/gwrthod yn rhannol:-

(vii) Rhif yr Apêl - CAS-02097-T1X2Y0 (1964)

Testun yr Apêl - Estyniad Dau Lawr i ochr a chefn y Tŷ Presennol, Portsh i'r Tu Blaen a Chroen Allanol y Gwaith Blociau wedi'i Rendro o'r newydd, 1 Mount Earl Close, Pen-y-bont ar Ogwr.

Bod yr Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd i ganiatáu'r Apêl, yn ddarostyngedig i'r Amodau oedd wedi eu cynnwys yn yr Adroddiad:-

(viii) Rhif yr Apêl - CAS-02162-X2D1M5 (1969)

Testun yr Apêl – Dileu Amod 2 P/17/456/Ful (Gwydr Tywyll) Seawynds, Carlton Place, Porthcawl.

47. Dirprwyo Caniatâd Adeilad Rhestredig

Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, gyda pharch i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, wedi gwneud y canlynol:-

- Cytuno ar ymrwymiad i ofyn am gyngor y swyddog enwebedig (Mrs Moira Lucas, Uwch Swyddog Cadwraeth a Dylunio) a chadw ato ar geisiadau am gydsyniad adeiladau rhestredig;

- Cytuno, pan nad yw cyngor y swyddog enwebedig ar gael, neu pan wneir cynnig i gymeradwyo cais yn groes i gyngor y swyddog enwebedig, yr hysbysir CADW er mwyn ystyried galw’r cais i mewn;
- Derbyn y cynnig gan CADW i Ddirprwyo Caniatâd Adeiladau Rhestredig ar bob adeilad rhestredig Gradd II;
- Cytuno y dylid cyfeirio'r adroddiad at y Cyngor i gytuno i ddiwygio'r Cyfansoddiad fel y disgrifir ym mharagraff 4.4 ynghyd ag unrhyw newidiadau angenrheidiol eraill.

48. Cofnod Hyfforddiant

Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau oedd yn amlinellu sesiynau hyfforddi oedd i ddod ar bynciau allweddol yn ymwneud â Chynllunio a Datblygu.